

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 16eg o Fedi 2019 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Alan H. Jones, Griffith Evan Thomas, Bethan Lawton,

- Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Simon Jones, Arwel Pierce
- Datgan diddordeb: Bu i'r Cynghorydd Bethan Lawton ddatgan buddiant ar eitem 5
- Derbyn cofnodion 15 Gorffennaf 2019:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir, gyda'r Cynghorydd Alan Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Griffith Thomas yn eilio.

- Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|----------------|---------------|--------|---------|
| Dwr Cymru | Dwr | 101669 | £69.01 |
| Jones & Jones | Pentref | 101670 | £543.60 |
| Cyng. B Lawton | Offer chwarae | 101671 | £19.20 |

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau.

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio – Tir ger Maes Tegfryn, Bryncrug, LL36 9PE (NP5/55/84B):

Bu i'r Cynghorydd Bethan Lawton ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu - aelod o'r teulu yn cyflwyno'r cais cynllunio - a bu iddi adael yr ystafell yn ystod y drafodaeth.

PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad.

- Cyngor Gwynedd - Adran Economi a Chymuned - Arolwg - Cynllun Rheolaeth Enwebiad Safle treftadaeth y Byd - Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru:

Adroddodd Cynghorydd y bod Cyngor Gwynedd yn cyflwyno cyflwyniad yn Abergynolwyn ar yr enwebiad ar 19 o Fedi 2019.

PENDERFYNIAD: I ateb yr holiadur fel a ganlyn:

Ydych chi'n cwblhau'r holiadur fel
- Unigolyn

Nodwch enw eich sefydliad / busnes
- Cyngor Cymuned Bryncrug

Pa mor gefnogol ydych ci o ddatblygu enwebiad Safle Treftadaeth Byd Tirlun Llechi Cymru (1 Dim o gwbl / 5 Cefnogol iawn)
- 5

Ydych chi'n deall beth sy'n bwysig am ein tirlun llechi (1 Dim o gwbl / 5 Llawn ddeall)
- 4

Ar ôl darllen y Cynllun Rheoli, ydych chi'n deall beth yw Safle Treftadaeth y Byd (1 Dim o gwbl / 5 Llawn ddeall)
- 5

Ydi ein amcanion rheoli yn glir a dealladwy (1 Dim o gwbl / 5 Clir iawn)
- 4

Ydi'r strwythur llywodraethu wedi ei osod allan yn glir (1 Dim o gwbl / 5 Clir iawn)
- 4

Ydych chi'n deall sut y byddwn yn gofalu am y tirlun llechi yn y dyfodol (1 Dim o gwbl / 5 Llawn ddeall)

- 4

Ydi ein hamcanion i hyrwyddo datblygiad priodol y tirlun wedi eu hamlinellu'n glir (1 Dim o gwbl / 5 Clir iawn)

- 3

Ydych chi'n cefnogi sut y byddwn yn hyrwyddo mwynhad o'r tirlun ac ymgysylltiad cymunedol trwy'r enwebiad (1 Dim o gwbl / 5 Cefnogol iawn)

- 5

Ydych chi'n cefnogi ein hamcanion i hyrwyddo dysgu ac ymchwil trwy'r enwebiad (1 Dim o gwbl / 5 Cefnogol iawn)

- 5

Ydych chi'n cytuno efo'r cynllun gweithredu sydd yn ymateb i'r materion rheoli (1 Dim o gwbl / 5 Cytuno'n llwyr)

- 4

Nodwch unrhyw sylw pellach sydd gennych isod os gwelwch yn dda

Pam nad yw Corris, Chwareli Abercwm Eiddaw a Tyno wedi eu cynnwys yn y cais?

7. Eluned Morgan AC - cylchlythyr:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

8. Cae Chwarae - gosod les i Glwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug:

Yr oedd Clwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug wedi anfon copi o ddogfen manwl iawn yn egluro eu cynlluniau.

PENDERFYNIAD: Y Clerc i anfon y ddogfen ymlaen at y cyfreithiwr, gan nodi nad oedd y ddogfen yn manylu ar beth sydd yn digwydd os nad yw'r clwb yn talu.
I ddiolch i'r clwb am baratoi'r ddogfen, gyda'r ddogfen yn fanwl iawn ac wedi cynorthwyo'r Cyngor. Egluro bod y ddogfen yn ddefnyddiol iawn ond bod angen mwy o drafodaeth. Gofyn wrth y clwb os mai £450 oedd y ffigwr cywir.
Y Clerc i ofyn wrth y clwb am restr o'r gemau.
I drefnu cyfarfod arbennig pan ddaw ragor o wybodaeth gan y cyfreithiwr.
Gofyn wrth Cyngor Gwynedd os yw'r rhyddhad ar y dreth ar y Pafiliwn yn cael ei roi gyda trwydded.

9. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

Yr ystafell y chwaraewyr adref yn fwy glan

Jones & Jones wedi cynorthwyo i glymu caead ar y to

Y Cynghorydd Bethan Lawton wedi archebu capiau i'r offer chwarae

PENDERFYNIAD: I ofyn wrth Jones & Jones i gael pris 4 polyn i'r siglen a siglen anabl
Hysbysu y clwb pêl-droed bod y Cyngor yn parhau i fod yn anhapus gyda safon y pyst sydd y tu ôl o seddi y swyddogion

10. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Adroddwyd y canlynol:

-Nid oedd llawer o gyfarfodydd dros yr haf

-Yn derbyn nifer o gwynion am yrwyrr yn goryrru, ar y ffordd o'r pentref tuag at Abergynolwyn a'r ffordd o'r pentref tuag at Lanegryn. GoSafe wedi derbyn cwynion ond bod cyfartaledd y cyflymder o dan 30mya, sydd yn is na chyflymder y ffordd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

11. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd nad yw'r Gwasanaeth Rhoi Gwaed yn ymweld a'r ardal a bod angen mynd i Ddolgellau neu Fachynlleth i roi gwaed. Hefyd, adroddwyd nad oedd yn bosib troi i fyny i sesiwn rhoi gwaed gan bod angen gwneud apwyntiad o flaen llaw.

PENDERFYNIAD: Y Cyngorydd Richard Evans i fynychu noson Nosweithiau yr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn Aberdyfi ar ran y Cyngor.
I anfon llythyr at Brif Beiriannydd Meirionnydd, Cyngor Gwynedd er mwyn ei hysbysu bod cerrig wedi eu cicio i'r afon wrth Pont Fathew sydd yn effeithio ar y falfiau.
I dderbyn y wybodaeth parthed y Gwasanaeth Rhoi Gwaed.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:15pm

Llofnod y Cadeirydd